Delyth Jewell
Committee Chair
Culture, Communications, Welsh Language, Sport and International Relations Committee
Senedd Cymru

**Friday, 13th March 2026**

Dear Delyth

Thank you for your recent letter following our evidence session. I appreciate both the opportunity to discuss these vital issues with the Committee and your recognition of the significant work done in recent years to stabilise the Welsh Rugby Union's finances and improve our culture. As you know Abi and I appeared in front of the Welsh Affairs Committee in Westminster recently and submitted an evidence pack which, given some of the questions raised by your committee and in your letter, may well be helpful for you to read. It is attached and it provides the detail behind the Board's positioning that is summarised in this letter.

I fully acknowledge the concerns you raised regarding our proposal to reduce the number of professional regional teams from four to three. This planned restructure is only one element of the transformation of the game in Wales that we are putting in place to strengthen the links between the community game and elite rugby to improve the standard and flow of players so we are sustainably more successful in all aspects of the elite game.

Welsh rugby is at a crossroads. We have laid the foundations for a sustainable future through consultation, analysis and improved finances. Change is difficult, but essential for the long-term success and health of the game. We are taking difficult decisions but acting responsibly to protect the community game, invest in pathways and deliver increased success across all aspects of the men's and women's elite game.

In summary, we are implementing a plan which has been agreed by our whole Board unanimously after extensive consultation: moving from four professional men's teams to three, while investing over £20 million in pathways, academies, coaching and the women's game across the next five years.

We are planning new investment in player development, new academies, coaching and improvements to our women's rugby provision which make a positive impact for generations to come. We have transformed our finances in our first two years as a new Board, which means as part of our transformation plan, we can now invest in the parts of the game which have been neglected for a long time. Our new structure will benefit elite and grassroots rugby alike. Our community clubs, pathways and academies will be at the heart of future plans, right across Wales, and across both the men's and women's games.

When we arrived as a Board we inherited longstanding problems and have assessed them fairly and professionally during the first eighteen months; and during 2025 consulted on and then published a long-term plan https://ymlaencymru.com/ . Our Board has been unanimous throughout this process, and our governance reforms are overseen by an independent review panel as part of a three-year programme led by Dame Anne Rafferty.

Two years in, we believe that review panel is satisfied with the progress and improvements made as we seek to restore the long-term trust of Welsh rugby's communities and stakeholders by ensuring decisions are made to the highest standards of accountability.

The recent Committee evidence session was a valuable opportunity to explain further why change is necessary. As we advised, our in-depth consultation and public engagement survey made clear that the rugby community recognises that change is needed in elite rugby. The current structure is not delivering success on the field, and the professional and semi-professional elements of our game require a sustainable financial footing.

The stark on-field outcomes in the men's game over the past few years underscore the need to concentrate talent and resources in fewer professional clubs and invest in player development to improve competitiveness

and ensure long-term sustainability. Our senior women's game results, at the recent Rugby World Cup for example, are also not where we want them to be.

My fellow Board members and I joined the WRU at a challenging time with a mandate for change. We've made huge strides in several key areas. We were also very clear last Autumn that we needed to listen to the wider rugby community about the nature of any further changes.

As you know, the consultation exercise was broad, comprehensive and meaningful. We listened to players, coaches, our club volunteers and fans, and have adapted our plans reflecting on the evidence gathered and conversations that took place. The original consultation proposal to reduce to two teams was revised to a three-club plan after the consultation, based on supporters' and clubs' concerns about regional heritage and player pathways.

The consultation, contrary to the assertion in your letter, produced an overriding consensus for change. Our challenge has been how to effect that change and take the passionate rugby public with us in the process. We continue to work hard on this element of our challenge.

You expressed concern at the conversation about a potential "Plan B". Our response to this question was intended to assure you that we remain committed to our current plan. Through consultation, we explored a range of options and followed a robust evaluation process, which led us to the direction we are now pursuing. Of course, there are alternatives which we have discussed as a Board after the consultation but none that achieve the aims and ambitions we have for Welsh rugby within the resource and means available to us.

I want to further assure you that the WRU's leadership remains confident that the strategy shaped by our consultation – centred on a three professional club model with substantial investment in player development – is the right path to ensure long-term stability and success for Welsh rugby. We are focused on getting this plan right. Nevertheless, we are not complacent. As with any major programme, we maintain a comprehensive risk register and continually assess potential scenarios as part of good governance and planning. We continuously review our approach and remain open to any further adjustments necessary to achieve our goals responsibly. I am deeply grateful to our rugby family for the passion and commitment they showed during our consultation, and we, as the Board, recognise the extraordinarily heavy responsibility we hold in overseeing our national game.

We will, of course, continue to abide by decisions agreed by our member clubs in accordance with our constitution, we will work collaboratively with our rugby family, but we must also lead and act in the best interests of the whole game. We sincerely acknowledge that a central part of bringing about positive change is about bringing people with us and this is a continued aim. Our Board members regularly attend District meetings to listen, absorb and assimilate the feelings and wishes of our members clubs and our Council members provide a network of WRU representatives on the ground in our community clubs charged with doing exactly the same. We know there is always more work we can do in this area but we are also aware that there will always be factions who do not agree with the decisions we are making and with our direction of travel. We embrace and accept challenge but we firmly believe these changes are necessary to ensure Welsh rugby not only survives its current challenges but ultimately thrives in the long run.

Rebuilding trust across Welsh rugby is a priority for us. We regret the uncertainty our plan currently causes amongst our community. We respect the deep sense of ownership and pride that people throughout Wales feel in our game, but change is difficult and disruption is unavoidable if we are to achieve our aims.

We will continue to engage transparently with our member clubs and all stakeholders, working together to strengthen Welsh rugby at every level. Our shared goal is to ensure the game's heart and soul remain strong as we make the necessary changes for a sustainable, prosperous future across the whole game.

Thank you once again for raising these critical issues. I and the rest of the Board and Executive Team look forward to continuing our constructive dialogue in the weeks and months ahead.

**Yours sincerely,**
**Richard Collier-Keywood**
*Chair, Welsh Rugby Union*

Delyth Jewell
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru

**Dydd Gwener, 13 Mawrth 2026**

**Annwyl Delyth,**

Diolch am eich llythyr diweddar yn dilyn ein sesiwn dystiolaeth. Rwy'n gwerthfawrogi'r cyfle i drafod y materion hollbwysig hyn gyda'r Pwyllgor, yn ogystal â'ch cydnabyddiaeth o'r gwaith sylweddol a wnaed yn ystod y blynyddoedd diweddar i sefydlogi cyllid Undeb Rygbi Cymru a gwella ein diwylliant.
Fel y gwyddoch, ymddangosodd Abi a minnau gerbron Pwyllgor Materion Cymreig San Steffan yn ddiweddar, a chyflwynwyd pecyn tystiolaeth gennym allai fod o gymorth i chi, o ystyried rhai o'r cwestiynau a godwyd gan eich pwyllgor ac wedi hynny yn eich llythyr. Mae'n nodi'r manylion sy'n sail i safbwynt y Bwrdd, ac fe geir crynodeb o hynny'n y llythyr hwn.

Rwy'n cydnabod y pryderon a godwyd gennych ynglŷn â'n bwriad i leihau nifer y timau rhanbarthol proffesiynol o bedwar i dri. Dim ond un elfen o weddnewid y gêm yng Nghymru yw'r ailstrwythuro arfaethedig hwn. Rydym yn gwneud hyn er mwyn cryfhau'r cysylltiadau rhwng y gêm gymunedol a'r gamp ar lefel elît, codi safon, datblygiad a niferoedd y chwaraewyr, gan hefyd sicrhau ein bod yn fwy llwyddiannus ac yn gynaliadwy ym mhob agwedd o'r gêm elît.

Mae rygbi Cymru ar groesffordd. Rydym wedi gosod y seiliau ar gyfer dyfodol cynaliadwy ac wedi gwneud hynny drwy ymgynghori, dadansoddi a chryfhau'r sefyllfa ariannol. Mae newid yn anodd, ond mae'n hanfodol er mwyn sicrhau llwyddiant a lles hirdymor y gêm. Rydym yn gwneud penderfyniadau anodd ond yn gweithredu'n gyfrifol i ddiogelu'r gêm gymunedol, buddsoddi yn y llwybrau datblygu a sicrhau mwy o lwyddiant ym mhob agwedd o gêm elît y dynion a'r menywod.

I grynhoi, rydym yn gweithredu cynllun sydd wedi'i gytuno'n unfrydol gan ein Bwrdd yn dilyn ymgynghori helaeth: Ein penderfyniad yw symud o bedwar tîm proffesiynol i dri yng nghamp y dynion, tra'n buddsoddi dros £20 miliwn mewn llwybrau datblygu, academïau, hyfforddiant a gêm y menywod dros y pum mlynedd nesaf. Rydym yn cynllunio buddsoddiad newydd mewn datblygu chwaraewyr, academïau newydd, hyfforddiant a gwelliannau i ddarpariaeth rygbi merched a menywod fydd yn cael effaith gadarnhaol am genedlaethau i ddod. Yn ystod ein dwy flynedd gyntaf fel Bwrdd newydd, rydym wedi gweddnewid ein sefyllfa ariannol, sy'n golygu bod modd inni nawr, fel rhan o'n cynllun trawsnewidiol hwn, i fuddsoddi yn yr elfennau hynny o'r gêm sydd wedi'u hesgeuluso ers amser maith. Bydd ein strwythur newydd o fudd i rygbi elît a rygbi ar lawr gwlad hefyd. Bydd ein clybiau cymunedol, ein llwybrau datblygu a'n hacademïau wrth galon ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol – a bydd hynny'n digwydd o Fôn i Fynwy yng nghampau'r dynion a'r menywod.

Pan ddaethom at ein gilydd fel Bwrdd, fe etifeddwyd problemau hirdymor, ac rydym wedi asesu'r problemau hynny'n deg ac yn broffesiynol yn ystod y deunaw mis cyntaf. Yn ystod 2025, yn dilyn ymgynghoriad ar gynllun hirdymor – cyhoeddwyd y casgliadau hynny ar y wefan https://ymlaencymru.com/. Mae ein Bwrdd wedi bod yn unfrydol drwy gydol y broses hon, ac mae ein diwygiadau llywodraethu yn cael eu goruchwylio gan banel adolygu annibynnol fel rhan o raglen dair blynedd dan arweiniad y Fonesig Anne Rafferty.

Ddwy flynedd i mewn i'r drefn honno, credwn fod y panel adolygu hwnnw'n fodlon ar y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed gennym hyd yma, wrth inni geisio adfer ymddiriedaeth hirdymor cymunedau a rhanddeiliaid rygbi Cymru - drwy sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn unol â'r safonau uchaf o atebolrwydd.

Roedd y sesiwn dystiolaeth ddiweddar gerbron y Pwyllgor yn gyfle gwerthfawr i egluro ymhellach pam fod newidau rydym yn eu cynnig yn angenrheidiol. Gwnaeth ein hymgynghoriad manwl a'n harolwg ymgysylltu cyhoeddus hi'n glir fod y gymuned rygbi yn cydnabod bod angen newid yn y gêm elît. Nid yw'r strwythur presennol yn sicrhau llwyddiant ar y cae, ac mae elfennau proffesiynol a lled-broffesiynol ein gêm angen sail ariannol gynaliadwy er mwyn ffynnu.

Mae'r canlyniadau heriol ar y cae yng ngêm y dynion dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn tanlinellu'r angen i grynhoi talent ac adnoddau mewn llai o glybiau proffesiynol, ac i fuddsoddi mewn datblygu chwaraewyr er mwyn ein gwneud yn fwy cystadleuol a chynaliadwy yn yr hirdymor. Nid yw canlyniadau ein menywod ar y llwyfan rhyngwladol, fel y dangoswyd yng Nghwpan y Byd 2025 er enghraifft, ar y lefel yr hoffem fod ar hyn o bryd chwaith.

Ymunodd fy nghyd-aelodau Bwrdd a minnau â'r Undeb ar amser heriol ond roedd gennym fandad clir i arwain a sicrhau newid. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn sawl maes allweddol ers hynny. Roeddem hefyd yn gwbl glir yr hydref diwethaf fod angen inni wrando ar y gymuned rygbi ehangach am unrhyw newidiadau pellach yn nhrefniant y gamp.

Fel y gwyddoch, roedd yr ymgynghoriad yn eang, yn gynhwysfawr ac yn ystyrlon. Fe wnaethom wrando ar chwaraewyr, hyfforddwyr, gwirfoddolwyr ein clybiau a chefnogwyr, ac rydym wedi addasu ein cynlluniau ar sail y dystiolaeth a gasglwyd a'r sgyrsiau a gafwyd. Diwygiwyd y cynnig gwreiddiol yn yr ymgynghoriad i leihau i ddau dîm, i gynllun tri chlwb yn dilyn yr ymgynghoriad hwnnw, wedi i ni wrando ar bryderon cefnogwyr a chlybiau am dreftadaeth ranbarthol a llwybrau datblygu chwaraewyr addawol.

Yn groes i'r hyn a nodwyd yn eich llythyr, fe greödd yr ymgynghoriad gonsensws clir o blaid newid. Yr her fawr i ni oedd sut i weithredu'r newidiadau hynny yng nghyd-destun yr angerdd amlwg sy'n bodoli ymhlith cefnogwyr rygbi Cymru.  Rydym yn parhau i weithio'n galed ar yr elfen hon o'n her.

Mynegwyd pryder gennych ynghylch y sgwrs am "Ail gynllun" posibl, neu gynllun wrt gefn yr Undeb. Bwriad ein hymateb i'r cwestiwn hwnnw oedd eich sicrhau ein bod yn parhau'n ymrwymedig i'n cynllun presennol. Drwy'r ymgynghoriad, buom yn ystyried amrywiaeth o opsiynau ac yn dilyn proses werthuso gadarn, rydym wedi'n harwain at y cyfeiriad clir yr ydym bellach yn ei ddilyn. Wrth gwrs, mae dewisiadau eraill wedi'u trafod gennym fel Bwrdd yn dilyn yr ymgynghoriad, ond nid oes yr un ohonynt yn cyflawni'r nodau a'r uchelgeisiau sydd gennym ar gyfer rygbi Cymru o fewn yr adnoddau a'r cyllidebau sydd ar gael inni.

Hoffwn eich sicrhau ymhellach fod arweinyddiaeth Undeb Rygbi Cymru yn parhau'n hyderus mai'r strategaeth a luniwyd drwy ein hymgynghoriad – sy'n canolbwyntio ar fodel tri chlwb proffesiynol gyda buddsoddiad sylweddol mewn datblygu chwaraewyr – yw'r llwybr cywir i sicrhau sefydlogrwydd a llwyddiant hirdymor i rygbi Cymru.

Rydym yn canolbwyntio ar wireddu'r cynllun hwn yn gywir ac effeithiol. Serch hynny, nid ydym yn gorffwys ar ein rhwyfau. Fel gydag unrhyw gynllun mawr newydd, rydym yn asesu'r risgiau'n fanwl fel rhan o'n cynllunio manwl a'n llywodraethiant gadarn. Rydym yn adolygu ein dulliau gweithredu'n gyson ac rydym yn agored i unrhyw addasiadau pellach sy'n angenrheidiol i gyflawni ein hamcanion yn gyfrifol. Rwy'n hynod ddiolchgar i'n teulu rygbi am yr angerdd a'r ymrwymiad a ddangoswyd yn ystod ein hymgynghoriad, ac rydym ni, fel Bwrdd, yn cydnabod y cyfrifoldeb eithriadol sydd arnom wrth ofalu am fudd ein gêm genedlaethol.

Byddwn, wrth gwrs, yn parhau i lynu at y penderfyniadau sydd wedi eu gwneud a'u cytuno gan ein clybiau (sy'n aelodau o'r Undeb) yn unol â'n cyfansoddiad. Byddwn yn gweithio ar y cyd â'n teulu rygbi, ond rhaid inni hefyd arwain a gweithredu er lles y gêm gyfan.

Rydym yn cydnabod ei bod hi'n bwysig ein bod yn llwyddo i  ddod â phobl gyda ni ar y daith newydd hon. Mae aelodau ein Bwrdd yn mynychu cyfarfodydd Ardal yn rheolaidd i wrando a deall teimladau a dymuniadau ein clybiau, ac mae ein haelodau Cyngor yn darparu rhwydwaith o gynrychiolwyr ar lawr gwlad, sydd â'r cyfrifoldeb o wneud yr union yr un peth. Gwyddom fod mwy o waith i'w wneud o hyd yn y maes hwn, ac rydym hefyd yn ymwybodol na fydd pawb yn unfryd am ein penderfyniadau na'r trywydd yr ydym yn ei ddilyn. Rydym yn croesawu ac yn derbyn cael ein herio, ond credwn yn gryf fod y newidiadau yr ydym am eu cyflwyno - yn

angenrheidiol er mwyn sicrhau nid yn unig fod rygbi Cymru yn dod dros ein heriau presennol, ond yn y pen draw yn ffynnu yn yr hirdymor.

Mae ailadeiladu ymddiriedaeth ar draws rygbi Cymru yn flaenoriaeth inni. Rydym yn ymwybodol fod yr ansicrwydd presennol yn achosi gofid i'n cymunedau ar hyn o bryd. Rydym yn parchu'r teimlad dwfn o berchnogaeth a balchder y mae pobl ledled Cymru yn ei deimlo tuag at ein gêm, ond mae newid yn anodd ac yn anghyfforddus ambell waith.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n agored a thryloyw â'n clybiau a'n holl randdeiliaid eraill, gan weithio gyda'n gilydd i gryfhau rygbi Cymru ar bob lefel. Ein nod yw sicrhau bod calon ac enaid y gêm yn parhau'n gryf wrth inni wneud y newidiadau angenrheidiol fydd yn sicrhau dyfodol cynaliadwy a llewyrchus ar gyfer y gêm gyfan yma yng Nghymru.

Diolch unwaith eto am godi'r materion pwysig hyn gyda ni. Edrychaf fi, ynghyd â gweddill ein Bwrdd a'n Tîm Gweithredol, ymlaen at barhau â'n deialog adeiladol yn ystod yr wythnosau a'r misoedd sydd i ddod.

**Yn gywir,**

**Richard Collier-Keywood**
**Cadeirydd, Undeb Rygbi Cymru**